**SYLWADAU'R HOLL DDARPARWYR**

**Sylw 1: Un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth**

Dywedwch wrthym os gallwch weithio gyda'ch gilydd i greu neu ddatblygu gwasanaeth sy'n bod eisoes, a ariennir ar y cyd sy'n rhoi cyngor a chymorth ar bob agwedd ar fyw gyda dementia a darparu gofal, gan gynnwys lles emosiynol i ofalwyr a chyngor ariannol. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gweithio gyda'ch gilydd i ddarparu llwybr clir o ddiagnosis ymlaen.

*Un o dair blaenoriaeth allweddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yw i'r Bwrdd Trawsnewid Oedolion gydweithio i gynorthwyo'r rheini a chanddynt ddementia. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu Rhaglen Dementia gyda ffocws ar ddarparu 'Safonau a Chynllun Gweithredu ar gyfer Dementia Cymru Gyfan' gyda'r rhanbarth yn datblygu Strategaeth Dementia yn unol â Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Deellir bod ymarfer mapio yn digwydd ar hyn o bryd fel bod gwell dealltwriaeth o ba wasanaethau sydd eisoes yn bod a sut y gallwn gyfeirio pobl yn well a nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau a sicrhau cefnogaeth ar draws y continwwm angen. Rydym yn ymroddedig i ddarparu'r cyngor cywir ar yr adeg gywir a chymryd ymagwedd gyfannol tuag at gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae Gwasanaeth Cymorth Dementia wedi'i sefydlu, gyda chyllid gan Bartneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg gyda chymorth pum sefydliad allweddol ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sy'n ceisio cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia ynghyd â'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor, gwybodaeth ar gyfer cael help gartref, gwybodaeth am seibiant, cefnogaeth ac arweiniad a gwybodaeth am addasiadau ac atgyweiriadau tai. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach maes o law wrth i ni weithio mewn partneriaeth â'n gilydd.*

**Sylw 2: Hyrwyddo'r unigolyn mewn gofal a chymorth.**

Dywedwch wrthym am eich cynlluniau i sicrhau y bydd buddiannau unigol defnyddiwr y gwasanaeth yn rhan weithredol o ddarparu gweithgareddau, gofal a chymorth, hyd yn oed pan fyddant mewn arosiadau dros dro.

*Mae Uned Tŷ Westfield yn Nhŷ Waunarlwydd yn sefydliad Gofal Preswyl yn Abertawe sy'n darparu cefnogaeth benodol i bobl â dementia sy'n gadael yr ysbyty. Mae Cyllid Integredig Rhanbarthol wedi caniatáu i uned wag yn y cartref gael ei defnyddio i gefnogi'r unigolion hyn. Nod yr uned yw adsefydlu pobl â dementia ar ôl cyfnod acíwt yn yr ysbyty i roi'r amser a'r cyfle iddynt wella a chaniatáu i wybodaeth gael ei chasglu ar anghenion unigolion, a chael gwell gwybodaeth am y gofal sydd ei angen arnynt pan fyddant yn gadael Tŷ Waunarlwydd. Mae'r uned hon yn cefnogi unigolion ar draws Abertawe a Chastell-nedd a Phort Talbot ac mae wedi cefnogi 28 o bobl ers mis Mehefin 2023. Er bod gweithgareddau rheolaidd fel cerddoriaeth a ffilmiau yn cael eu hyrwyddo o fewn y gwasanaethau mae'r gweithgareddau a'r gofal a ddarperir wedi'u teilwra ar sail unigol ar gyfer anghenion yr unigolyn, ac mae amgylchedd dementia wedi'i greu er mwyn gwneud i'r unigolion deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchoedd, mae hyn yn berthnasol ar draws ein holl gartrefi preswyl sy'n cefnogi unigolion â dementia.*

**Sylw 3: Hyrwyddo iaith a diwylliant wrth ddarparu gwasanaethau**

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod yr holl staff sy'n darparu gwasanaethau yn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau fel bod pawb yn cael mynediad teg at wasanaethau.

*Mae amrywiaeth y boblogaeth yn Abertawe'n cael ei gwerthfawrogi a'i dathlu. Mae Dinas Abertawe'n falch o fod yn Ddinas Hawliau Dynol sy'n croesawu'r rheini o wahanol oedrannau, diwylliannau a galluoedd gan gynnwys gwerthfawrogi bod rhai pobl yn defnyddio nifer o ieithoedd o fewn y ddinas, gan gynnwys y Gymraeg. O fewn y Cyngor mae gennym dîm sy'n ymroddedig i gyfieithu dogfennau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae gennym hefyd gontract gyda Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyfieithu dogfennau, mynychu cyfarfodydd, cyfnewid gwybodaeth, darparu sgyrsiau wyneb yn wyneb mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Mae gennym hefyd Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg o fewn ein gwasanaethau i sicrhau y gallwn gynnig cynnig Cymraeg gweithredol. Er nad yw bob amser yn bosib darparu ar gyfer pob iaith, gwneir pob ymdrech i gyfathrebu ag unigolion yn eu dewis iaith.*

*O ran amrywiaeth ddiwylliannol rydym yn ymdrechu i addysgu'n staff am wahanol grefyddau a dewisiadau diwylliannol. Cynhyrchwyd taflenni yn y cartrefi i addysgu'r timau am y rheini sy'n perthyn i'r gymuned LHDTCRh+ ac mae testunau crefyddol gwahanol a brynwyd ar gyfer y cartrefi yn gam tuag at greu amgylchedd cynhwysol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu cysylltiadau â gwahanol gymunedau ac mae staff yn cael hyfforddiant parhaus i sicrhau eu bod yn gallu rheoli deinameg gwahaniaethau a gwerthfawrogi amrywiaeth. Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae gennym weithlu amrywiol, amlddiwylliannol sy'n cynrychioli'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.*

# SYLWADAU PENODOL I ABERTAWE

### GOFAL CYMDEITHASOL ABERTAWE

**Sylw 7: Pennu gweithwyr cymdeithasol yn brydlon**

Dywedwch wrthym yr amserlenni y cytunwyd arnynt eisoes ar gyfer pennu gweithiwr cymdeithasol, y camau a gymerir i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyflym a threfniadau ar gyfer dewisiadau eraill lle nad yw hyn yn bosib.

*Mae'r Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC) sef y pwynt mynediad cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Abertawe yn asesu anghenion unigolyn cyn gynted â phosib. Nid oes unrhyw amserlenni penodol ar gyfer pennu Gweithiwr Cymdeithasol gan y byddai hyn yn cael ei asesu gan y Pwynt Mynediad Cyffredin a byddai'n dibynnu ar yr angen a'r risg a geir. Lle bo'r pryderon yn cael eu brysbennu fel rhai brys, gall y tîm amlddisgyblaethol sydd wedi'i leoli yn y Pwynt Mynediad Cyffredin ddarparu ymateb cyflym sydd fel arfer ar yr un diwrnod.*

*Nid yw pennu Gweithiwr Cymdeithasol o reidrwydd yn briodol dan bob amgylchiad; mae gwybodaeth, cyngor a chyfeirio yn aml yn cael eu cynnig drwy PMC yn dilyn asesiad cymesur fel y dull gweithredu priodol, gan ddefnyddio dull cyfathrebu ar sail cryfder/cydweithredol i annog unigolion i ddefnyddio'u cryfderau.*

**Sylw 8: Argaeledd a pharhad gofal**

Dywedwch wrthym y trefniadau presennol ar gyfer darpariaeth ddyletswydd, a sut y bydd gofal cymdeithasol yn sicrhau bod y rheini y mae angen gwasanaeth gweithwyr cymdeithasol a darparwyr gofal arnynt yn parhau i dderbyn y gwasanaethau cywir, hyd yn oed ar ôl cael seibiant, gwyliau neu arhosiad yn yr ysbyty.

*Mae gan bob gwasanaeth system ddyletswydd ddyddiol gyda system ddyletswydd frys sydd ar gael y tu allan i oriau gwaith. Mae gan y timau gwaith cymdeithasol tymor hir, Tîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty a Thimau Iechyd Meddwl systemau dyletswydd sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm ac ar ddydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm. Y tu allan i'r oriau hyn mae gwasanaethau dyletswydd brys sydd ar gael ar benwythnosau a gwyliau banc lle mae staff ar gael i siarad ag aelodau'r cyhoedd.*

**Sylw 9: Cynyddu'r ddarpariaeth seibiant a gwasanaethau eistedd gyda phobl**

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau seibiant a gwasanaethau eistedd gyda phobl yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym a bod y rheini y mae angen y gwasanaethau hyn arnynt yn eu derbyn.

*Ar hyn o bryd mae gennym argaeledd yn Abertawe ar gyfer gwasanaethau seibiant yn dilyn asesiad gwaith cymdeithasol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw restrau aros am ofal seibiant ond ni ellir darparu seibiant os nad yw person sy'n derbyn gofal yn dymuno defnyddio gofal seibiant. Gall ein darparwyr gofal a gomisiynir ddarparu gwasanaethau eistedd gyda phobl ac mae'r gwasanaeth hwn bellach ar gael mewn rhai ardaloedd drwy ficrofentrau hefyd . Ar hyn o bryd nid oes rhestr aros am wasanaeth eistedd gyda phobl er y gall fod rhywfaint o aros ar adegau am wasanaeth o'r fath lle mae'r unigolyn yn byw mewn ardal fwy gwledig.*

**Sylw 10: Cynllunio ar gyfer gofal preswyl**

Dywedwch wrthym y trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer gofal preswyl ac a oes angen ystyried pa mor aml y caiff anghenion pobl eu hailasesu i sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir.

*Er y manteisir ar bob cyfle i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain neu yn y gymuned am gyhyd ag y bo modd, dull Cyngor Abertawe yw darparu'r gofal mwyaf diogel posib yn y ffordd leiaf cyfyngol. Lle mae anghenion unigolyn yn cynyddu, ac nad yw'n gallu byw'n ddiogel yn y cartref, gellir ystyried taw gofal preswyl yw'r math mwyaf priodol o ofal i ddiwallu ei anghenion. Rydym yn cymryd pob cam i gydweithio â'r unigolyn a'r rheini o'i gwmpas i sicrhau bod y gofal cywir yn cael ei ddarparu mewn modd priodol ac amserol. Os yw person yn byw mewn gofal preswyl caiff ei ailasesu bob blwyddyn o leiaf. Gall yr egwyl hon fod yn fwy aml yn seiliedig ar yr amgylchiadau unigol neu os oes newid sylweddol mewn amgylchiadau.*